NEWYDDION o'r ysgolion

Nodion o Ysgol Penrhyn-coch

Dyma ni'n ôl unwaith yn rhagor a gwelwn ar unwaith bod nifer o welliantau wedi eu gwneud yn ystod y gwyliau. Gosodwyd nenfwd newydd a goleuni stribed ymhob ystafell a'r cyfan yn edrych yn hynod o hyfryd. Cawsom y cyfle i groesawu Emma Gaunt, Nia George, Joanna Foley a Philip Ralphs i'n plith ac yn lle Mr Julian Davies, sydd wedi derbyn swydd yn Lloegr, daw Mrs Elaine James atom unwaith yr wythnos i ddysgu'r ffidil.

Tua diwedd y tymor diwethaf cawsom Ffair Haf yn yr ysgol. Agorwyd hi gan Mrs Rhys Jones, Bod-elwy. Bu ei diweddar briod yn brifathro'r ysgol am nifer o flynydd-oedd. Cawsom anerchiad diddorol gan Mrs Jones a chofiodd yn hael iawn am Gronfa'r Ysgol. Cyflwynwyd tusw o flodau iddi gan Siwan Davies. Y mae'n diolch yn ddyledus i Mrs Jones, y rhieni a charedigion am eu cefnogaeth i ni yma. Cawsom Fabol-gampau llwyddiannus iawn hefyd a braf yw gweld y plant a'r rhieni'n uno i wneud y cyfan yn llwyddiant. Yn awr edrychwn ymlaen am flwyddyn bleserus arall yn hanes yr ysgol.